O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1512 (Cy. 138)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder o 50 milltir yr awr ar ddarn penodol o Draffordd yr M4 yn Sir Fynwy.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (ac eithrio mewn perthynas â ffyrdd arbennig yn gyffredinol) gan Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r terfyn cyflymder presennol o 50 milltir yr awr a osodir gan Reoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2005, sy'n ymwneud â rhan o'r darn o draffordd a lywodraethir gan y Rheoliadau hyn.

Ystyrir bod y terfyn cyflymder 50 milltir yr awr yn rhagofal diogelwch hanfodol er mwyn galluogi traffig i arafu wrth ddynesu at Fan Casglu Tollau Ail Bont Hafren ac uno'n ddiogel o'r bythau toll yn y Man Casglu Tollau.

Ni wnaed asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai er mwyn diogelwch ar y ffordd y mae'n cael ei wneud ac nid yw'n effeithio ar gostau busnes.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1512 (Cy. 138)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy)(Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010

Gwnaed *27 Mai 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *3 Mehefin 2010*

Yn dod i rym *24 Mehefin 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac wedi ymgynghori â sefydliadau cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2)(**2**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mehefin 2010 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4).

(**1**) 1984 p.27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 134(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, adran 168(1), Atodlen 8, paragraff 77.

Gosod terfyn cyflymder

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y rhan honno o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin yn Rogiet yn Sir Fynwy sy'n estyn o bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf hyd at bwynt 752 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf.

Dirymiad

4. Dirymir Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA 2005(**1**) drwy hyn.

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

27 Mai 2010

(**1**) 2005 O.S.1450/113.